Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 22nd September 2026 at 6.30 pm via Teams only.

Councillors Present: Carrie Townsend Jones (Chair), Sara Keeton, and Rebecca Fogarty

Co-opted members present: Cllr Chris Evans, Dennis Dwyer and Colber Adamian-Thomas

Officers Present: Mari Potter – Environmental and Sustainability Officer and Ian Hughes – CSO

Prior to the commencement of the meeting, The Chair, Cllr Sara Keeton formally handed over the role of Chair for the duration of the meeting to Cllr Townsend Jones due to a recent eye operation restricting her ability to read.

EN2609-01	**Apologies:** Cllr Xanthe Keeton
EN2609-02	**Declarations of Interest** Cllrs Fogarty and Sara Keeton declared a personal interest as SCC Councillors in relation to any agenda impacting on their SCC roles. In addition, Cllr Townsend Jones declared a personal interest in relation to agenda item (**EN2609-08**) through her connection with a local allotment association. Cllr Chris Evans declared a prejudicial interest in agenda item **EN2609-05**, relating to the proposed sale of his weed ripper. Cllr Evans left the meeting whilst this was discussed.
EN2609-03	**Minutes of the previous Meeting of the Committee** To approve the minutes of the meeting held on 23rd June 2026 as a true record. **RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 23rd June 2026.
EN2609-04	**Actions arising from Previous Meetings** The CSO updated the committee on the outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. **RESOLVED** outstanding actions updated, and new actions to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.

Signed by Chair

EN2609-05	**Budget Monitoring Reports to 31/07/2026 - Paul Beynon, RFO** Reports attached. Financial reports prepared by RFO Paul Beynon who when circulating them prior to the meeting indicated that the reports only covered the period until May 2026 and not July 2026 as indicated in the agenda. The Chair Cllr Townsend Jones highlighted the need to spend the budgets that had previously been allocated before discussing key aspects of the budgets with committee members as set out below:- • *Civic Amenities* - Cllr Nelson had previously raised the possibility of installing a bus shelter on Mayals Road which will continue to be researched by Cllr Nelson. • *Bulbs and Wildflower Planting* – Councillors believed that planting should be done as a matter of urgency this Autumn and arrangements made for planting in the Spring of 2027. In addition, Mayals Councillors to liaise with Cllr Chris Evans who is progressing matter. ACTION CSO To email all councillors re-above. • *Jubilee Gardens, Reserve and Orchard* – ACTION CSO to email Ash re-pruning workshops • *E&SO and environmental resources* – Cllr Chris Evans left the meeting whilst an item relating to his weed ripper was discussed between (8.01pm and 8.04). The weed ripper being offered for sale by Cllr Evans appears heavy to handle and it was the consensus of the committee that Ash, the grounds person would be best placed to assess the viability of purchasing the equipment. This may include Ash borrowing the ripper for a full assessment. ACTION Ash to liaise with Cllr Evans over the suitability of purchasing the weed ripper in question. On-going projects such as Eco-Warriors and biodiverse school participation were discussed though no amendments to budgets were proposed nor actions created. **RESOLVED** to approve the above reports
EN2609-06	**Budget 2026/2027** A report had been prepared and circulated to Councillors by the RFO, Paul Beynon in relation to the budget timetable. Councillors agreed with the contents of the report but were mindful that a new RFO is to be appointed imminently. Councillors were keen to consolidate existing projects such as weeding and the biodiverse school projects. Whilst budget proposal forms will need to be submitted Councillors were also mindful of Council Elections next year. **RESOLVED:** To accept the above report provided by The RFO and submit budget proposal forms within the agreed timescale.

EN2609-07	**Training Plan** Mari Potter and Cllr Fogarty outlined recent training that they had undertaken.
EN2609-08	**Allotments Proposal** The committee discussed how best to transfer surplus food at allotments to foodbanks and other locations for people in need of additional food. Cultivating vacant or part-vacant allotments through the use of allotment holders or volunteers co-ordinated either through MCC or the allotment associations themselves were considered. The committee concluded that the most efficient method would be for allotment holders to place surplus produce in a designated box to be collected or delivered to a suitable body such as a foodbank for distribution. This practice currently exists on an informal basis and has successfully been carried out in the past. **ACTION:** Cllr Sara Keeton to provide suitable wording for Mari to email allotment associations requesting the use of a communal food boxes to be used as set out above.
EN2609-09	**Bench/bus shelter for Norton Surgery** Councillors discussed the options of installing a bus shelter either outside Norton Stores or on the other side of the road outside Norton Medical Centre. There are issues connected to the lack of pavement space and such requests are in any case quite time consuming. In addition, the prospect of a bus shelter near West Cross Surgery in West Cross Lane was also discussed. **ACTION:** Cllr Rebecca Fogarty to liaise with Charlotte of SCC to assess the feasibility of installing bus shelters in West Cross Lane (Surgery) and in Norton (either outside Norton Stores or outside Norton Medical Centre)
EN2609-10	**EO Report (Current Projects and Plans)** Mari Potter provided a verbal update on recent key events which are detailed below:- • Eco Warrior Events were very successful with over 100 participants over a six-week period • Four Fundays held during August throughout the wards, each with environmental stalls and activities. Forest School will be taking place in Clyne Gardens last weekend in September. • A number of local talks including Matt Green providing a marine talk on Swansea and Gower Wildlife. • Forthcoming Wellfest Weekend outlined with a number of environmental events planned, with the assistance of volunteers. • Maintenance at Bethany Gardens outlined with thanks given to Dennis Dwyer and Colber Adamian-Thomas. Future improvements also discussed including a bee hotel together with bird and bat boxes and hedging being replaced. • Bulb and Wildflower planting updates

	• Fungi Festival at Clyne Gardens on Sunday 11th October 2026 and again at Bethany Gardens on 18th October. • Green spaces considered as an agenda item for October's Meeting.

Meeting ended at 7.56.pm.

Next Meeting - to be arranged

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 22 Medi 2026 am 6.30 pm drwy gyfrwng Teams yn unig.

Cynghorwyr yn bresennol: Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Sara Keeton, a Rebecca Fogarty

Aelodau cyfetholedig yn bresennol: Y Cynghorydd Chris Evans, Dennis Dwyer a Colber Adamian-Thomas

Swyddogion yn bresennol: Mari Potter – Swyddog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Cyn dechrau'r cyfarfod, trosglwyddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Sara Keeton, rôl y Cadeirydd yn ffurfiol am hyd y cyfarfod i'r Cynghorydd Townsend Jones gan ei bod wedi cael llawdriniaeth ddiweddar ar ei llygad a oedd yn effeithio ar ei gallu i ddarllen.

EN2609-01	**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Xanthe Keeton
EN2609-02	**Datganiadau o fuddiant** Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Fogarty a Sara Keeton fel Cynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe mewn perthynas ag unrhyw fater ar yr agenda sy'n effeithio ar eu rolau yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe. Yn ogystal â hyn, cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Townsend Jones mewn perthynas ag eitem (**EN2609-08**) ar yr agenda oherwydd ei chysylltiad â chymdeithas rhandiroedd leol. Cafwyd datganiad o fuddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd Chris Evans yn eitem **EN2609-05** ar yr agenda, mewn perthynas â gwerthiant arfaethedig ei beiriant torri chwyn. Gadawodd y Cynghorydd Evans y cyfarfod tra'r oedd hyn yn cael ei drafod.
EN2609-03	**Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2026.
EN2609-04	**Camau gweithredu yn codi o gyfarfodydd blaenorol** Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y camau gweithredu heb eu cwblhau, wedi iddo ddosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

	PENDERFYNWYD diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau, a chofnodi camau gweithredu newydd yn yr adroddiad ar 'y camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.
EN2609-05	**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2026 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol** Yr adroddiadau wedi eu hatodi. Paratowyd yr adroddiadau ariannol gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon. Pan ddosbarthodd yr adroddiadau cyn y cyfarfod, nododd mai'r cyfnod hyd at fis Mai 2026 yn unig yr oeddent yn ei gwmpasu ac nid hyd at fis Gorffennaf 2026 fel y nodwyd yn yr agenda. Tynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, sylw at yr angen i wario'r cyllidebau a oedd wedi'u dyrannu'n flaenorol cyn trafod agweddau allweddol ar y cyllidebau ag aelodau'r pwyllgor, fel y nodir isod:- • *Amwynderau dinesig* - Cododd y Cynghorydd Nelson yn flaenorol y posibilrwydd o osod cysgodfan fysiau ym Mayals Road, a bydd y Cynghorydd Nelson yn parhau i ymchwilio i hyn. • *Plannu bylbiau a blodau gwyllt* – Roedd y cynghorwyr o'r farn y dylid plannu ar frys yr hydref hwn ac y dylid gwneud trefniadau ar gyfer plannu yn ystod gwanwyn 2027. Yn ogystal, bydd cynghorwyr Mayals yn cysylltu â'r Cynghorydd Chris Evans, sy'n bwrw ymlaen â'r mater. CAM GWEITHREDU Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon neges e-bost i bob cynghorydd ynglŷn â'r uchod. • *Gerddi, Gwarchodfa a Pherllan Jiwbilî* – CAM GWEITHREDU Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon neges e-bost i Ash parthed y gweithdai ail-docio • *Swyddog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac adnoddau amgylcheddol* – Gadawodd y Cynghorydd Chris Evans y cyfarfod tra'r oedd yr eitem yn ymwneud â'i beiriant torri chwyn yn cael ei thrafod rhwng (8.01pm ac 8.04pm). Mae'r peiriant torri chwyn y mae'r Cynghorydd Evans yn cynnig ei werthu yn ymddangos yn drwm i'w drin ac roedd y pwyllgor yn gytûn mai Ash, y tirmon, fyddai yn y sefyllfa orau i asesu ymarferoldeb prynu'r offer. Gallai hyn gynnwys Ash yn benthyca'r peiriant torri chwyn er mwyn ei asesu'n llawn. CAM GWEITHREDU Ash i gysylltu â'r Cynghorydd Evans ynghylch addasrwydd prynu'r peiriant torri chwyn dan sylw. Trafodwyd prosiectau parhaus megis Eco-arwyr a chyfranogiad ysgolion bioamrywiol, er na chynigiwyd unrhyw welliannau i gyllidebau ac ni chrëwyd unrhyw gamau gweithredu. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiadau uchod
EN2609-06	**Cyllideb 2026/2027** Paratowyd adroddiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, mewn perthynas ag amserlen y gyllideb, ac fe'i dosbarthwyd i'r cynghorwyr. Roedd y cynghorwyr yn cytuno â chynnwys yr adroddiad, ond roeddent yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd yn cael ei benodi'n fuan. Roedd y cynghorwyr yn awyddus i gydgrynhoi prosiectau presennol megis chwynnu a phrosiectau ysgolion

	bioamrywiol. Er y bydd angen cyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb, roedd y cynghorwyr hefyd yn ymwybodol o etholiadau cyngor y flwyddyn nesaf. **PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad uchod a ddarparwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
EN2609-07	**Cynllun hyfforddi** Amlinellodd Mari Potter a'r Cynghorydd Fogarty yr hyfforddiant diweddar y gwnaethant ymgymryd ag ef.
EN2609-08	**Cynnig yn ymwneud â rhandiroedd** Trafododd y pwyllgor y ffordd orau i drosglwyddo bwyd dros ben mewn rhandiroedd i fanciau bwyd a lleoliadau eraill ar gyfer pobl sydd angen bwyd ychwanegol. Ystyriwyd trin rhandiroedd gwag neu rannol wag trwy ddefnyddio deiliaid rhandiroedd neu wirfoddolwyr wedi'u cydlynu, naill ai trwy Gyngor Cymuned y Mwmbwls neu'r cymdeithasau rhandiroedd eu hunain. Daeth y pwyllgor i'r casgliad mai'r dull mwyaf effeithlon fyddai i ddeiliaid rhandiroedd roi cynnyrch dros ben mewn blwch dynodedig i'w gasglu neu ei ddanfon i gorff addas megis banc bwyd er mwyn iddo gael ei ddosbarthu. Mae'r arfer hwn yn bodoli yn anffurfiol ar hyn o bryd ac mae wedi profi'n llwyddiannus yn y gorffennol. **CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Sara Keeton i ddarparu geiriad addas y gall Mari ei anfon dros e-bost at gymdeithasau rhandiroedd yn gofyn iddynt ddefnyddio blychau bwyd cymunedol, fel y nodir uchod.
EN2609-09	**Mainc / cysgodfan fysiau ar gyfer Meddygfa Norton** Trafododd y cynghorwyr yr opsiynau ar gyfer gosod cysgodfan fysiau, naill ai y tu allan i Norton Stores neu ar ochr arall y ffordd y tu allan i Ganolfan Feddygol Norton. Mae problemau'n gysylltiedig â diffyg lle ar y palmant a gall ceisiadau o'r fath fod yn llafurus beth bynnag. Yn ogystal â hyn, trafodwyd y posibilrwydd o gael cysgodfan fysiau ger meddygfa West Cross yn West Cross Lane. **CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Rebecca Fogarty i gysylltu â Charlotte o Gyngor Dinas a Sir Abertawe i asesu dichonoldeb gosod cysgodfannau bysiau yn West Cross Lane (Y feddygfa) ac yn Norton (naill ai y tu allan i Norton Stores neu y tu allan i Ganolfan Feddygol Norton)
EN2609-10	**Adroddiad Swyddog yr Amgylchedd (prosiectau a chynlluniau cyfredol)**

	Rhoddodd Mari Potter ddiweddariad ar lafar ar ddigwyddiadau allweddol diweddar, a nodir isod:- • Profodd y digwyddiadau Eco-arwyr yn llwyddiannus iawn gyda thros 100 o gyfranogwyr yn cymryd rhan dros gyfnod o chwe wythnos • Cynhaliwyd pedwar Diwrnod Hwyl yn ystod mis Awst ledled y wardiau, pob un â stondinau a gweithgareddau amgylcheddol. Bydd ysgol goedwig yn cael ei chynnal yng Ngerddi Clun yn ystod penwythnos olaf mis Medi. • Nifer o sgyrsiau lleol, gan gynnwys Matt Green yn rhoi sgwrs forol ar fywyd gwyllt Abertawe a Gŵyr. • Amlinellwyd manylion penwythnos Gŵyl lach sydd ar ddod gyda nifer o ddigwyddiadau amgylcheddol wedi'u cynllunio, gyda chymorth gwirfoddolwyr. • Amlinellwyd y gwaith cynnal a chadw sy'n mynd rhagddo yng Ngerddi Bethany, a diolchwyd i Dennis Dwyer a Colber Adamian-Thomas. Trafodwyd gwelliannau ar gyfer y dyfodol hefyd, gan gynnwys gwesty i wenyn ynghyd â blychau adar ac ystlumod a gwrychoedd newydd. • Diweddariadau o ran plannu bylbiau a blodau gwyllt • Gŵyl Ffyngau yng Ngerddi Clun ddydd Sul 11 Hydref 2026, ac eto yng Ngerddi Bethany ar 18 Hydref. • Ystyriwyd rhoi mannau gwyrdd fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Hydref.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.56pm.

Cyfarfod nesaf - i'w drefnu